# Cynllun Strategol Cydraddoldeb

2024 - 28

Cyngor Sir y Fflint
Flintshire County Council

## Cynllun Cydraddoldeb Strategol Cyngor Sir y Fflint 2024 – 2028

**Cynnwys**


| | **Tudalen** |
|---|---|
| **Rhagair** | |
| **1. Cyflwyniad** | 4 |
| **2. Amcanion Cydraddoldeb** | 9 |
| **3. Diwallu'r Dyletswyddau Penodol** | 21 |
| 3.1 Trefniadau ar gyfer nodi, coladu a chyhoeddi gwybodaeth | 21 |
| 3.2 Trefniadau ar gyfer asesu effaith | 21 |
| 3.3 Trefniadau ar gyfer hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth | 22 |
| 3.4 Sut byddwn yn ymgorffori cydraddoldeb mewn caffael | 22 |
| **4 Monitro ac Adolygu** | 23 |
| **5. Cyhoeddi** | 23 |

**Atodiadau**

1. Cynllun Gweithredu

2. Proffil o Weithlu Cyngor Sir y Fflint

## Rhagair

Croeso i bedwerydd Cynllun Cydraddoldeb Strategol Cyngor Sir y Fflint. Rydym yn falch o gyhoeddi'r cynllun hwn sy'n rhoi manylion am yr amcanion, camau gweithredu a'r targedau a fydd yn cael eu gwneud yn ystod y pedair blynedd nesaf ac yn nodi'r sylfaen dystiolaeth a'r rhesymeg y mae'r amcanion yn seiliedig arnynt.

Rydym wedi parhau i weithio mewn partneriaeth gyda'r holl gyrff cyhoeddus ar draws Gogledd Cymru ac wedi nodi amcanion cydraddoldeb rhanbarthol yn ogystal â lleol. Mae gweithio mewn partneriaeth yn bwysig yn y cyfnod ariannol anodd hwn, ond mae hefyd yn helpu i nodi amcanion cydraddoldeb cyffredin. Mae hyn yn golygu bod gweithgarwch wedi'i dargedu ar fynd i'r afael â meysydd penodol o anghydraddoldeb a fydd o fudd i bob rhan o Ogledd Cymru. Bydd nifer o sefydliadau sy'n gweithio gyda'i gilydd i greu newid yn cael mwy o effaith nag un sefydliad.

Mae'r amcanion newydd yn gyson â'r amcanion cydraddoldeb a nodwyd yn ein Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol blaenorol. Nid yw hyn yn syndod gan ein bod yn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau sydd wedi'u gwreiddio'n ddwfn ac sy'n hir-sefydlog. Rydym yn cydnabod ein bod ar daith a bydd gwneud newid parhaus yn cymryd amser. Wrth gynhyrchu'r Cynllun hwn byddwn yn cyflawni ein Dyletswyddau Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i hybu cydraddoldeb, dileu gwahaniaethu, erledigaeth ac aflonyddu anghyfreithlon, a meithrin cysylltiadau cymunedol da yn ein swyddogaethau cyflogaeth, polisi, caffael a darparu gwasanaethau.

Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn adeiladu ar y cynnydd a wnaed gennym trwy'r Cynlluniau blaenorol. Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol ochr yn ochr â Pholisi Amrywiaeth a Chydraddoldeb a'r Safonau Iaith Gymraeg yn nodi ein hymrwymiad i gydraddoldeb. Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn gysylltiedig â Chynllun y Cyngor 2023-2028.

Rydym wedi gwerthfawrogi'r cyfraniadau gan bawb sydd wedi cymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu'r cynllun hwn. Os hoffech chi gymryd rhan a chyfrannu at barhau i adolygu ein blaenoriaethau a fydd yn lleihau anghydraddoldebau yn Sir y Fflint, cysylltwch â ni.

Neal Cockerton
Prif Weithredwr

Y Cyng. Billy Mullin
Aelod Cabinet Llywodraethu a Gwasanaethau Corfforaethol, gan gynnwys Iechyd a Diogelwch ac Adnoddau Dynol

# 1. Cyflwyniad

## 1.1 Cyd-destun Cyfreithiol

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn diogelu pobl rhag gwahaniaethu mewn cyflogaeth a gwasanaethau ar sail y nodweddion canlynol: -

- Oedran
- Anabledd
- Ailbennu Rhywedd
- Priodas a Phartneriaeth Sifil
- Beichiogrwydd a Mamolaeth
- Hil
- Crefydd neu Gred
- Rhyw
- Cyfeiriadedd Rhywiol

Cyflwynwyd dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus gan y Ddeddf, sy'n gosod **dyletswydd gyffredinol** ar gyrff cyhoeddus i roi ystyriaeth ddyledus i'r angen i:

(a) ddileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall sydd wedi ei wahardd gan neu o dan y Ddeddf;

(b) hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a phobl nad ydynt yn ei rhannu;
a

(c) meithrin perthnasau da rhwng pobl â nodweddion a ddiogelir a phobl hebddynt.

**Dyletswydd Benodol**

Mae gan gyrff cyhoeddus datganoledig yng Nghymru ddyletswyddau penodol o fewn Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011; sy'n cynnwys gosod a chyhoeddi amcanion cydraddoldeb a datblygu Cynllun Cydraddoldeb Strategol (CCS). Dyma ein pedwerydd Cynllun Cydraddoldeb Strategol sy'n nodi amcanion cydraddoldeb a'r camau y byddwn yn eu cymryd i'w cyflawni.

Pwrpas y cynllun yw mynd i'r afael ag anghydraddoldebau i wneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau pobl ar draws y nodweddion gwarchodedig sy'n byw a gweithio yn Sir y Fflint. Mae'r amcanion cydraddoldeb yn anelu i fynd i'r afael â meysydd sylweddol o anghydraddoldeb. Rydym wedi adolygu tystiolaeth o ystod o ffynonellau ansoddol a meintiol i gyfarwyddo'r CCS.  Rhoddir sylw i'r iaith Gymraeg trwy

weithredu'r Safonau Iaith Gymraeg; fel yr amlinellwyd yn y Rhybudd Cydymffurfio a gyflwynwyd gan y Comisiynydd Iaith.

**1.2** Nodwyd y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol yn Neddf Cydraddoldeb 2010 ond ni weithredwyd y ddyletswydd gan San Steffan. Daeth i rym yng Nghymru ar 31 Mawrth 2021. Mae'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor:

> wrth wneud penderfyniadau o natur strategol ynglŷn â sut i arfer ei swyddogaethau, roi sylw dyledus i ba mor ddymunol fyddai eu harfer yn y modd a fwriedir i leihau anghydraddoldebau mewn canlyniadau sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol..

### 1.3 Deddf Hawliau Dynol 1998

Rydym hefyd yn cydymffurfio â'r Ddeddf Hawliau Dynol 1998 sy'n gwneud yr hawliau dynol a nodir yn y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yn weithredol. Gelwir yr hawliau hyn yn **Hawliau Confensiwn**.

Mae enghreifftiau o hawliau dynol neu hawliau confensiwn yn cynnwys:

- yr hawl i fywyd.
- yr hawl i barch o ran bywyd preifat a theuluol.
- yr hawl i ryddid o ran credoau a chrefydd.
- yr hawl i beidio â wynebu rhagfarn.

### 1.4 Amcanion cydraddoldeb ar gyfer 2024 -2028

Rydym wedi diweddaru ac adolygu amcanion cydraddoldeb y Cyngor, wrth symud ymlaen o 2024 - 2028 yr amcanion yw:

Amcan 1: Gwella canlyniadau iechyd, lles a gofal cymdeithasol gan gynnwys canlyniadau i bobl hŷn a phobl anabl.

Amcan 2: Lleihau bylchau mewn cyrhaeddiad addysgol rhwng grwpiau gwarchodedig a gweithredu strategaethau i wella lles.

Amcan 3: Cymryd camau cadarnhaol i sicrhau fod y gweithlu'n cynrychioli'r boblogaeth leol a sicrhau tâl cyfartal ar gyfer gwaith cyfartal.

Amcan 4: Gwella diogelwch personol i holl grwpiau gwarchodedig.

Amcan 5: Cynyddu mynediad at wasanaethau a gwneud penderfyniadau i holl grwpiau gwarchodedig.

Amcan 6: Gwella safon byw pobl â nodweddion gwarchodedig gwahanol.

Amcan 7: Lleihau effaith tlodi a chynnwys dyletswydd economaidd-gymdeithasol o fewn y sefydliad.

Bydd cyflawni'r amcanion cydraddoldeb hyn yn cyfrannu at ddarparu gwasanaethau a chyfleusterau priodol, hygyrch ac effeithiol sy'n diwallu anghenion amrywiol ein cymuned ac yn sicrhau bod y Cyngor yn gyflogwr teg yn ei holl arferion cyflogaeth. Mae Atodiad 1 yn nodi'r camau y byddwn yn eu cymryd i fodloni'r amcanion hyn ac yn cwrdd â dyletswyddau penodol Deddf Cydraddoldeb 2010.

### 1.5 Proffil Poblogaeth

Mae Sir y Fflint yn sir lled-wledig Gymreig yng ngogledd-ddwyrain Cymru. Mae'n ffinio â Swydd Caer i'r dwyrain, Wrecsam i'r de a Sir Ddinbych i'r gorllewin.

Gweler isod grynodeb o'r proffil ar drigolion Sir y Fflint:

Yn Sir y Fflint, ar ddiwrnod Cyfrifiad 2021:

- Roedd amcangyfrif o gyfanswm poblogaeth y sir yn 155,000 (cynnydd o 152,500 yn 2011).
- Mae'r bobl hynny yn byw mewn, cyfanswm o 66,900 o anheddau.
- Yn 2021, Sir y Fflint oedd y seithfed yn y cyfanswm poblogaeth o'r 22 ardal awdurdod lleol yng Nghymru, sydd yn ostyngiad o un lle yn y degawd diwethaf.
- Sir y Fflint sydd gan y boblogaeth fwyaf yng Ngogledd Cymru.
- Sir y Fflint yw'r 11eg sir â'r boblogaeth ddwysaf o'r 22 ardal awdurdod lleol yng Nghymru.
- Mae gostyngiad o 3.0% o bobl 15 - 64 oed.
- Mae gostyngiad o 4.2% o blant dan 15 oed.
- Mae cyfran pobl 65+ oed yn y sir wedi cynyddu i 21.4% (33,200 o bobl) o'i gymharu â 17.6% (26,838 o bobl) yn 2011.
- Nododd 1.4% o'r boblogaeth eu cenedligrwydd fel Pwylaidd.

**Grŵp Ethnig:**

| Grŵp Ethnig | % |
|---|---|
| Asiaidd, Asiaidd Prydeinig neu Asiaidd Cymreig | 0.9% |
| Du, Du Prydeinig, Du Cymreig, Caribïaidd neu Affricanaidd | 0.2% |
| Cymysg neu grwpiau ethnig lluosog | 0.9% |
| Gwyn | 97.6% |
| Grŵp ethnig arall | 0.3% |

Darperir manylion pellach ar ein gwefan a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol.

## 1.6 Y Cyngor

**Aelodau Etholedig**
Mae gan Gyngor Sir y Fflint 67 o Gynghorwyr sy'n cynrychioli 46 ward etholiadol yn Sir y Fflint. Maent yn cael eu hethol yn ddemocrataidd bob pedair blynedd. O ran yr Aelodau Etholedig, mae 43 dyn, a 24 dynes (34.5%)o'i gymharu â'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn 2020 lle adroddwyd bod 53 aelod etholedig gwrywaidd a 17 aelod etholedig benywaidd. Mae hyn yn gynnydd o dros 11%.

**Gweithwyr**
Mae'r Cyngor yn cyflogi 6,235 o bobl sy'n darparu gwasanaethau o wahanol safleoedd o amgylch y sir gyda'r brif ganolfan weinyddol yn Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug. Mae'r gwasanaethau'n cynnwys treth y cyngor, addysg, tai, cynllunio, gwasanaethau gwastraff, gwasanaethau cymdeithasol, safonau masnach a chludiant. Darperir dadansoddiad o broffil y gweithlu yn Atodiad 2. Mae data yn 2023 yn dangos bod mwyafrif o weithwyr y Cyngor yn fenywaidd (75.99%) o'i gymharu â gwrywaidd (24.01%). Mae adroddiadau gwybodaeth manwl blynyddol am y gweithlu yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor.

Mae'r archwiliad cyflog cyfartal a gwblhawyd ar 31 Mawrth 2023 yn dangos bod y bwlch cyflog rhwng dynion a merched yn y Cyngor yn 12.76% (cymedr) a 19.69% (canolrif). Mae hyn yn ostyngiad o'n Cynllun Cydraddoldeb Strategol diwethaf a gyhoeddwyd yn 2020 pan oedd y bwlch cyflog yn 13.1% (cymedr) a 20.88% (canolrif). Mae manylion llawn ein Harchwiliad Cyflog Cyfartal blynyddol yn cael eu cyhoeddi ar ein gwefan a gellir eu gweld yma.

Fel Cyngor rydym wedi parhau i wneud arbedion i gwrdd â'r her ariannol. Wrth wneud hynny, rydym wedi llwyddo i ddiogelu gwasanaethau allweddol megis cynnal ffyrdd, cadw cymunedau yn lân a thaclus, ysgolion lleol, cefnogaeth lles a gwasanaethau ar gyfer pobl hŷn a phlant diamddiffyn.

## 1.7 Amcanion Lles a Chynllun y Cyngor
Rydym wedi datblygu Amcanion Lles i fodloni Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn cyfrannu at bob un o'r amcanion lles hyn.

Mae saith o flaenoriaethau wedi'u nodi yng Nghynllun y Cyngor 2023-28 , mae'r tabl isod yn nodi pa amcan cydraddoldeb sy'n cyfrannu at bob blaenoriaeth:

| Blaenoriaeth y Cyngor | Amcan Cydraddoldeb |
|---|---|
| **Tlodi**<br>**Amcan Lles:** Diogelu ein cymunedau a phobl rhag tlodi trwy eu cefnogi i fodloni eu hanghenion sylfaenol a bod yn gydnerth | Amcan Cydraddoldeb 7 |
| **Tai Fforddiadwy a Hygyrch** | Amcanion Cydraddoldeb 1, 6 a 7 |

| | |
|---|---|
| **Amcan Lles:** Tai yn Sir y Fflint yn bodloni anghenion ein preswylwyr ac yn cefnogi cymunedau mwy diogel | |
| **Cymdeithas Werdd a'r Amgylchedd** **Amcan Lles:** Lleihau a gwella effaith gwasanaethau'r Cyngor ar yr amgylchedd naturiol a chefnogi cymunedau ehangach Sir y Fflint i leihau eu hôl-troed carbon eu hunain | Amcan Cydraddoldeb 5 |
| **Economi** **Amcan Lles:** Cysylltu cymunedau a galluogi adferiad a thwf economaidd cynaliadwy | Amcan Cydraddoldeb 7 |
| **Lles Personol a Chymunedol** **Amcan Lles:** Cefnogi pobl mewn angen i fyw cystal ag y gallent | Amcan Cydraddoldeb 1 |
| **Addysg a Sgiliau** **Amcan Lles:** Galluogi a chefnogi cymunedau sy'n dysgu | Amcan Cydraddoldeb 2 |
| **Cyngor a Reolir yn Dda** **Amcan Lles:** Cyngor cyfrifol a dyfeisgar y gellir ymddiried ynddo, sy'n gweithredu mor effeithlon â phosib | Amcan Cydraddoldeb 3 |

## 1.8 Cysylltiadau â chynlluniau a strategaethau eraill

Ni all y Cynllun Cydraddoldeb Strategol sefyll ar ei ben ei hun os yw cydraddoldeb am gael ei brif ffrydio i waith bob dydd; mae'n gysylltiedig â:

- Cynllun Gweithredu Gwres Fforddiadwy - sicrhau bod gan drigolion diamddiffyn fynediad at wres fforddiadwy i gadw'n gynnes.
- Polisi Urddas yn y Gwaith - y nod tymor hir yw bod yn awdurdod ymatebol ym mhob agwedd o'n gweithgareddau gwasanaeth; yn darparu gwasanaethau a chyfleusterau priodol, hygyrch ac effeithiol i ddiwallu anghenion amrywiol ein cymuned.
- Prosiect Effeithlonrwydd Ynni Domestig.
- Strategaeth Digartrefedd a Strategaeth Gweithredu Lleol.
- Strategaeth y Bobl a pholisïau Adnoddau Dynol eraill sy'n ceisio sicrhau ein bod yn deg yn ein holl arferion cyflogaeth.
- Protocol Rheoli Gwersylloedd Diawdurdod, sy'n anelu at sicrhau bod y ffordd y mae'r Cyngor yn rheoli gwersylloedd Theithwyr diawdurdod yn deg ac yn gymesur.
- Strategaeth Ysgolion yr 21ain Ganrif gan sicrhau bod ysgolion yn addas i'r diben ac yn diwallu anghenion dysgwyr â nodweddion gwarchodedig.

# 2.0 Amcanion Cydraddoldeb

## 2.1 Bodloni ein hamcanion cydraddoldeb.

Mae'r cynnydd o ran bodloni ein hamcanion cydraddoldeb wedi'i nodi yn ein hadroddiadau cydraddoldeb blynyddol. Yn ystod y pedair blynedd diwethaf rydym wedi gwella gwybodaeth am amrywiaeth ein gweithwyr.

## 2.2 Adolygu ein hamcanion

Mae'r dyletswyddau cydraddoldeb statudol yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus sefydlu amcanion cydraddoldeb mewn perthynas â'r grwpiau gwarchodedig. Dylai amcanion fod yn seiliedig ar dystiolaeth a chanolbwyntio ar ganlyniadau i fynd i'r afael â'r meysydd mwyaf sylweddol o anghydraddoldeb gan arwain at welliannau i weithwyr a chwsmeriaid. Dylai'r amcanion cydraddoldeb gwrdd â thair rhan y ddyletswydd gyffredinol. Hefyd mae'n rhaid i ni gyhoeddi amcan i fynd i'r afael â gwahaniaeth cyflog rhwng y rhywiau. Mae'r cynllun gweithredu i gyflawni ein hamcanion cydraddoldeb yn cael ei nodi yn Atodiad 1.

Rydym wedi adolygu ein hamcanion gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau: -

### Yn rhanbarthol

- Rydym wedi gweithio ar y cyd gyda chyrff sector cyhoeddus eraill ar draws Gogledd Cymru i gynnal ymchwil rhanbarthol a chenedlaethol ar broffil cydraddoldeb ein cymunedau a nodi anghydraddoldebau penodol. Darperir dadansoddiad manwl o'r boblogaeth ac fe gynhaliwyd yr ymchwil ar anghydraddoldebau yng Ngogledd Cymru gan Gyngor Gwynedd ar ran Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru.
- Fel aelod o Rwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru, fe wnaethom ymgynghori gyda budd-ddeiliaid ar ein hamcanion cydraddoldeb rhanbarthol.
- Cwblhawyd ymarfer ymgynghori a gweithdy ym mis Gorffennaf 2023 i ddeall y rhwystrau mae pobl â nodweddion gwarchodedig yn eu hwynebu wrth wneud cais am gyflogaeth yn y sector cyhoeddus.

### Yn lleol

- Cynhaliodd y Tîm Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol gyfres o sgyrsiau cymunedol, i nodi materion a blaenoriaethau a cheisio adborth ar ein hamcanion cydraddoldeb cyfredol. Cyfarfu'r Tîm â'r canlynol:
    - Chanolfan Amlddiwylliannol Gogledd Ddwyrain Cymru, yn cynnwys:
        - CLPW: Comunidade de Lingua Portuguesa
        - Paallam Arts: Cydweithfa Celfyddydau Perfformio India (Wrecsam a Chymru)
        - Grŵp Cymunedol Affrica Wrecsam
        - Menter Iaith Fflint a Wrecsam (Wrecsam a Sir y Fflint)

        - Cymdeithas Merched Tsieineaidd Gogledd Ddwyrain Cymru (Sir y Fflint / Gogledd Ddwyrain Cymru)
        - Y Gymdeithas Eingl-Bwylaidd (Caer a Gogledd Cymru).
    - Pobl ifanc (11-19 mlwydd oed) yn ystod y Diwrnod Lles Ieuenctid a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf 2023.
    - Ffoaduriaid o Wcráin
    - Grŵp Hunaneiriolaeth Yr Wyddgrug yn Sir y Fflint
- Fe wnaethom gyfarfod â grwpiau lleol, yn cynnwys pobl anabl i ofyn am eu safbwyntiau ar y blaenoriaethau allweddol yr oedd angen rhoi sylw iddynt. Nodwyd cludiant fel mater allweddol.
- Fe wnaethom adolygu cynnydd ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol presennol a nodi'r amcanion hynny roeddem yn cael trafferth canfod data ar eu cyfer i fesur cynnydd.
- Fe wnaethom hefyd adolygu'r data a gadwom ar broffil gweithwyr y Cyngor a chwsmeriaid. Gwelsom mai data cyfyngedig oedd ar gael am broffil cwsmeriaid a gweithwyr a lle'r oedd ar gael, nid oedd yn cwmpasu pob un o'r nodweddion gwarchodedig. Rydym yn cydnabod bod angen i ni barhau i goladu data i fonitro unrhyw anghydraddoldebau ar gyfer grwpiau penodol a hefyd i nodi meysydd ar gyfer gwelliannau.

2.3 Rydym wedi gosod saith amcan cydraddoldeb ar gyfer ein hunain, i'w cyrraedd yn y cyfnod 2024 -2028. Rydym wedi nodi pob amcan cydraddoldeb, pam bod yr amcan yn flaenoriaeth a sut y byddwn yn mesur ein cyflawniad. Mae ein hamcanion cydraddoldeb ar gyfer 2024 - 2028 wedi'u nodi ar y tudalennau canlynol:

## Amcan 1: Gwella canlyniadau iechyd, lles a gofal cymdeithasol

**Mae hyn yn flaenoriaeth oherwydd:**

- Dywedodd yr adborth o'r ymgynghori rhanbarthol a lleol fod hyn yn bwysig.
- Dywedodd Llywodraeth Cymru fod pobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol, trawsrywiol a cwiar / sy'n cwestiynu yn fwy tebygol o ddioddef o iechyd meddwl gwaelach yn cynnwys unigrwydd, iselder, a hunanladdiad.
- Mae adroddiadau blaenorol yn dangos bod pobl anabl LHDTC+ yn parhau i wynebu gwahaniaethu ar sail eu cyfeiriadedd rhywiol a/neu eu hunaniaeth rhywedd gan y rhai sy'n darparu gofal, ac nad yw anghenion pobl hŷn bob amser yn cael eu diwallu - Ffynhonnell: Cynllun Gweithredu LHDTC+ Cymru LlC.
- Mae rhannau o'r boblogaeth LHDTC+ hefyd yn fwy tebygol o fod yn unig neu ar wahân yn gymdeithasol, yn enwedig pobl hŷn (Sefydliad LHDT 2020).
- Yng Nghymru, yn 2021 roedd plant Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn cynrychioli 8.3% o'r plant a oedd yn derbyn gofal (StatsCymru, 2021).
- Yn ôl rhai pobl o leiafrifoedd ethnig roedd diffyg tosturi ac empathi yn eu profiad o wasanaethau gofal cymdeithasol, roedd tybiaethau'n cael eu

gwneud yn eu cylch oherwydd eu hethnigrwydd ac nid oedd eu hanghenion yn cael eu diwallu. Ffynhonnell: Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol Llywodraeth Cymru.

- Fe wnaeth Adroddiad yr Is-Grŵp Economaidd Gymdeithasol gan Lywodraeth Cymru ganfod yr ystyrir ei bod hi'n anoddach i bobl o gefndir Du, Asiaidd neu leiafrifoedd ethnig gael gafael ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, oherwydd y rhwystrau diwylliannol ac ieithyddol.
- Nifer y diwrnodau gwaith a gollwyd fesul gweithiwr awdurdod lleol cyfwerth â llawn amser oherwydd absenoldeb salwch 11.87 diwrnod.

**Caiff llwyddiant ei fesur drwy:**

| Mesur | Gwaelodlin |
|---|---|
| Nifer o weithwyr y Cyngor sydd wedi cael hyfforddiant ar Gymorth Cyntaf Iechyd Meddwl ar draws y sefydliad (cynnydd) | 106 |
| Nifer y Cefnogwr Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl ar draws y sefydliad (cynnydd) | 0 |
| Defnydd o Raglen Cymorth Gweithwyr y Cyngor (cynnydd) | 3.54 |
| Data ethnigrwydd ar ddefnyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol yn ôl nifer / %, lle mae data ethnigrwydd ar gael | I’w gadarnhau |
| Nifer / % y gweithwyr Gwasanaethau Cymdeithasol sy’n mynychu hyfforddiant gwrth-hiliaeth | Mesur newydd |
| Nifer / % y gweithwyr Gwasanaethau Cymdeithasol sy’n mynychu hyfforddiant ymwybyddiaeth o LHDTC+ | Mesur newydd |
| Nifer y cwynion ynghylch gwahaniaethu / hiliaeth sy’n cael eu gwneud gan ddefnyddwyr gwasanaeth o fewn Gwasanaethau Cymdeithasol. | I'w gadarnhau |

## Amcan 2: Lleihau bylchau mewn cyrhaeddiad addysgol rhwng grwpiau gwarchodedig a gweithredu strategaethau i wella lles

**Mae hyn yn flaenoriaeth oherwydd:**

- Mae merched yn perfformio’n well na bechgyn ym mhob cam allweddol yn ein hysgolion.
- Yng Nghymru, gostyngodd ganlyniadau A2 (blwyddyn olaf lefel-A) yn sylweddol ar gyfer dysgwyr o gefndiroedd ethnig Du, Affricanaidd, Caribïaidd, Du y DU. Ffynhonnell: Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol Llywodraeth Cymru.
- Er gwaethaf gwelliannau dros amser, mae tystiolaeth o astudiaeth gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn 2018 yn awgrymu bod cyrhaeddiad yn y blynyddoedd cynnar yng Nghymru yn parhau i amrywio

ar gyfer plant o gefndiroedd ethnig gwahanol. Yn benodol, mae cyrhaeddiad disgyblion Du yn is na disgyblion Gwyn Prydeinig yn ystod addysg y blynyddoedd cynnar (Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, 2018).

- Mae bechgyn yn fwy tebygol o gael eu gwahardd o ysgolion Sir y Fflint (yn barhaol ac am gyfnod penodol).

| Rhyw | Sefydlog (%) | Parhaol (%) | Cyfanswm (%) |
|---|---|---|---|
| Benyw | 30.21 | 0.25 | 30.46 |
| Gwryw | 68.54 | 1.75 | 70.29 |

- Yng Nghymru, rhwng mis Medi 2019 a mis Awst 2020, disgyblion o gefndir ethnig Sipsiwn oedd â'r gyfradd uchaf o waharddiadau am gyfnod penodol (5 diwrnod neu lai), a disgyblion o gefndir ethnig Gwyn oedd â'r gyfradd uchaf o waharddiadau am gyfnod penodol (dros 5 diwrnod) a gwaharddiadau parhaol. Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol Llywodraeth Cymru.
- Dywedodd Stonewall Cymru fod dros hanner pobl ifanc LHDT Cymru (54%) a bron i dri chwarter pobl ifanc trawsrywiol (73%) yn cael eu bwlio yn yr ysgol am fod yn LHDT (Adroddiad Ysgol, Stonewall Cymru 2017).
- Roedd y canfyddiadau o'r arolwg DU gyfan gan Just Like Us (Milsom 2021) yn nodi mai dim ond 58% o ddisgyblion LHDT+ oedd yn teimlo'n ddiogel bob dydd yn yr ysgol yn y 12 mis blaenorol - o'i gymharu â 73% o ddisgyblion nad ydynt yn LHDT+. Yn ogystal, nododd 43% o ddisgyblion LHDT+ eu bod yn cael eu bwlio, o'i gymharu â 21% o ddisgyblion nad ydynt yn LHDT+.
- Yn ôl ymchwil 'Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth', roedd chwarter o'r ymatebwyr a oedd yn athrawon/cynorthwywyr addysgu yng Nghymru wedi gweld, cael neu ymateb i adroddiad o wahaniaethu ar sail hil yn y flwyddyn ddiwethaf, gyda 3 mewn 10 o ymatebwyr sy'n ddisgyblion yn cyfaddef i fod yn hiliol, neu ddefnyddio iaith hiliol tuag at ddisgybl arall (Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth, 2020).
- Mae Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) yn dangos mai dim ond 4% o ddisgyblion 5 oed a hŷn mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg oedd yn Ddu, Asiaidd, ac o Leiafrif Ethnig ym mis Ebrill 2021, o'i gymharu â 15% mewn ysgolion cyfrwng Saesneg.

**Caiff llwyddiant ei fesur drwy:**

| Mesur | Gwaelodlin |
|---|---|
| Nifer yr ysgolion sydd wedi rhoi'r elfen o'r cwricwlwm ar waith, gan sicrhau bod storïau, cyfraniadau a hanesion Pobl Ddu, Asiaidd, ac o Leiafrif Ethnig yn cael eu dysgu. | Mesur newydd |
| Nifer yr ysgolion sy'n gofyn bod storïau, cyfraniadau a hanesion am bobl Ddu, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn cael eu dysgu yn unol ag argymhelliad Estyn. | Mesur newydd |
| Nifer yr ysgolion sy'n bodloni gofyniad statudol y cwricwlwm pan maent yn destun arolwg. | Mesur newydd |
| Nifer yr ysgolion sy'n defnyddio'r system electronig i adrodd am fwlio ar sail hunaniaeth. | 49 |
| Nifer a math o achosion o fwlio ar sail hunaniaeth mewn ysgolion. | 49 |
| Nifer yr ysgolion sy'n manteisio ar gyfleoedd datblygiad personol sy'n ymwneud â gwrth hiliaeth a chynhwysiant LHDTC+. | Mesur newydd |
| Canran y gwaharddiadau parhaol a chyfnod penodol yn ôl nodweddion gwarchodedig. | Mesur newydd |
| Canran y plant o gefndir Du, Asiaidd a Lleiafrif Ethnig sy'n derbyn addysg drwy gyfrwng y Gymraeg. | Mesur newydd |
| Canran y bobl o gefndiroedd lleiafrif ethnig sy'n cymryd rhan mewn prosiectau iaith Gymraeg drwy Menter Iaith. | Mesur newydd |
| Canran yr ysgolion sydd wedi penodi arweinydd gwrth-hiliaeth. | Mesur newydd |

## Amcan 3: Cymryd camau cadarnhaol i sicrhau fod y gweithlu'n cynrychioli'r boblogaeth leol a sicrhau tâl cyfartal ar gyfer gwaith cyfartal.

**Mae hyn yn flaenoriaeth oherwydd:**

- bod y bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn y Cyngor yn 12.76%.
- Roedd y bwlch cyflog ethnigrwydd yng Nghymru yn 2019 yn 1.4%. (SYG).
- Dangosodd canfyddiadau Arolwg Cymru Gyfan i Bobl Ethnig Lleiafrifol a gynhaliwyd gan y Tîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig ac Ieuenctid yn 2018 dros gyfnod o dri mis (rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr 2018) fod mwyafrif o 60% o'r 143 o ymatebwyr yn teimlo bod lleiafrifoedd ethnig yn cael eu trin yn annheg yn y gweithle (Tîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig ac Ieuenctid, 2019).
- Adroddodd 34% o staff LHDTC+ eu bod wedi cuddio neu ddieithrio eu hunaniaeth yn y gwaith rhag ofn iddynt gael eu gwahaniaethu - Stonewall Cymru 2018.
- Adroddodd y data o Arolwg Cenedlaethol Cymru 2019 - 2020 bod 19% o bobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol wedi cael eu bwlio yn y gweithle yn y flwyddyn cyn cynnal yr arolwg. Mae hyn yn cymharu ag 11% o bobl heterorywiol.
- Mewn arolwg a grwpiau ffocws gan Lywodraeth Cymru yn 2021, er i 45 y cant o'r bobl nodi mai dim ond ymateb cadarnhaol a gafwyd yn y gweithle pan wnaethant ddweud eu bod yn LHDTC+, nododd 24 y cant fod eu hunaniaeth LHDTC+ wedi cael ei datgelu yn y gweithle heb eu caniatâd, a nododd 10 y cant eu bod wedi profi cam-drin geiriol.

**Caiff llwyddiant ei fesur drwy:**

| Mesurau / Dangosyddion Perfformiad | Gwaelodlin |
|---|---|
| Cynyddu ansawdd a maint data'r gweithlu | I'w gadarnhau |
| Nifer y cwynion a wneir gan weithwyr am wahaniaethu a bwlio'n seiliedig ar hunaniaeth. | 0 |
| Y bwlch cyflog rhwng dynion a merched sy'n cael eu cyflogi gan y Cyngor. | 12.76% |
| Y bwlch cyflog rhwng gweithwyr anabl a gweithwyr nad ydynt yn anabl. | Mesur newydd |

## Amcan 4: Gwella diogelwch personol i holl grwpiau gwarchodedig

**Mae hyn yn flaenoriaeth oherwydd:**

- Nododd ymgynghoriad bod troseddau casineb yn dal yn broblem i lawer o bobl.
- Ar gyfer y flwyddyn rhwng mis Ebrill 2021 a mis Mawrth 2022, cofnododd yr heddlu fod troseddau casineb ar sail cyfeiriadedd rhywiol yng Nghymru wedi cynyddu 50% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol (o 884 i 1,329) a bod troseddau casineb yn erbyn pobl drawsrywiol wedi cynyddu 43% (o 173 i 247 o achosion). Ffynhonnell: Cynllun Gweithredu LHDTC+ Cymru LlC
- Mae troseddau casineb hil yn rhoi cyfrif am 66% o'r holl droseddau casineb a adroddwyd yng Nghymru yn 2020 - 2021 (Llywodraeth y DU 2021).
- Mae nifer y troseddau casineb sy'n cael eu hadrodd i Heddlu Gogledd Cymru wedi cynyddu yn Sir y Fflint. Digwyddiadau wedi'u hysgogi gan hil yw'r rhai sy'n cael eu hadrodd amlaf.

.

| Math o ddigwyddiad | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 |
|---|---|---|---|---|---|
| Wedi'i ysgogi gan hil | 76 | 99 | 92 | 126 | 151 |
| Homoffobig | 29 | 40 | 39 | 61 | 58 |
| Yn ymwneud ag anabledd | 14 | 20 | 38 | 65 | 39 |
| Trawsffobig | 1 | 4 | 7 | 7 | 10 |
| Crefyddol | 9 | 5 | 7 | 6 | 13 |
| Cyfanswm | 129 | 168 | 183 | 265 | 271 |

- Nid oedd y rhan fwyaf o bobl LHDT a oedd wedi profi trosedd neu ddigwyddiad casineb wedi rhoi gwybod i'r heddlu am hynny (Stonewall Cymru 2017).
- Yn ôl Swyddfa Archwilio Cymru amcangyfrifir bod trais domestig yn costio £826 miliwn y flwyddyn i Gymru: £202.6 miliwn mewn costau gwasanaethau, £100.9 miliwn mewn costau economaidd a gollir a £522.9 miliwn mewn costau dynol ac emosiynol. Swyddfa Archwilio Cymru - Cynnydd wrth fodloni Deddf Trais yn Erbyn Merched, Camdriniaeth Ddomestig a Thrais Rhywiol 2019.
- Mae Rhaglen Cymorth Cam-drin Domestig y Sefydliad LHDT wedi gweld cynnydd o ran y galw am gefnogaeth ers cyflwyno cyfyngiadau'r cyfnod clo:
    - cynnydd o 38% yn nifer y bobl sy'n cael eu hatgyfeirio at gymorth cam-drin domestig, a
    - chynnydd o 38% yn nifer y galwadau i'r llinell gymorth cam-drin domestig.

  Ffynhonnell: Sefydliad LHDT 2020).

**Caiff llwyddiant ei fesur drwy:**

| **Mesurau / Dangosyddion Perfformiad** | **Gwaelodlin** |
|---|---|
| Nifer yr adroddiadau am ddigwyddiadau casineb yn ôl nodwedd warchodedig fel yr adroddwyd i Heddlu Gogledd Cymru. | 265 |
| Nifer a % yr achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol ar sail hunaniaeth a adroddir gan Ddeiliaid Contract (tenantiaid tai). | Mesur newydd |
| Canran a nifer y gweithwyr sy'n cwblhau hyfforddiant e-fodiwl Llywodraeth Cymru ar drais rhywiol a cham-drin domestig. | I'w gadarnhau |

## Amcan 5: Cynyddu mynediad at wasanaethau a gwneud penderfyniadau i holl grwpiau gwarchodedig

**Mae hyn yn flaenoriaeth oherwydd:**

- Mae ymgysylltu â grwpiau gwarchodedig a chynnal asesiadau o effaith ar gydraddoldeb yn ofynion statudol y PSED.
- Mae mynediad at wasanaethau yn fater sydd wedi cael ei godi gan bobl anabl yn ystod y cyfnod ymgynghori, yn enwedig mynediad at gefn gwlad a thoiledau cyhoeddus.
- Mae cyfraddau pleidleisio yn parhau i fod yn isel ar gyfer rhai grwpiau.
- Aelodau Etholedig yn y Cyngor - 43 gwryw (64.1%) a 24 benyw (35.8%).
- Mewn arolwg o ymgeiswyr yn etholiadau llywodraeth leol 2017, roedd 2.3% o'r ymgeiswyr ar gyfer cynghorau sir a bwrdeistref sirol a roddodd eu hethnigrwydd a 1.9% o'r ymgeiswyr ar gyfer cynghorau tref a chymuned yn bobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol. Roedd 1.8% o'r rhai a etholwyd i gynghorau sir a bwrdeistref sirol a 1.2% o'r rhai a etholwyd i gynghorau tref a chymuned yn perthyn i grwpiau ethnig lleiafrifol (Llywodraeth Cymru, 2018).

**Caiff llwyddiant ei fesur drwy:**

| Mesurau / Dangosyddion Perfformiad | Gwaelodlin |
|---|---|
| % y bobl sy'n cymryd rhan yn yr etholiad yn ôl hil, rhyw ac oedran | I'w gadarnhau |
| Nifer y Cymorthfeydd Digidol a gynhelir mewn Canolfannau Sir y Fflint yn Cysylltu | I'w gadarnhau |
| Nifer y gorsafoedd digidol sydd ar gael ar draws y rhwydwaith llyfrgelloedd | I'w gadarnhau |

## Amcan 6: Gwella safon byw pobl â nodweddion gwarchodedig gwahanol

**Mae hyn yn flaenoriaeth oherwydd:**

- Mae ymgynghori yn rhanbarthol ac yn lleol wedi nodi bod hwn yn broblem.
- Nifer y dyddiau a gymerir ar gyfartaledd i gwblhau addasiad canolig gorfodol i bobl anabl yw 89 diwrnod.
- Nifer y dyddiau a gymerir ar gyfartaledd i gwblhau addasiad mawr gorfodol i bobl anabl yw 469 diwrnod.
- Hyd cyfartalog arhosiad (diwrnodau) ar gyfer yr aelwydydd hynny mewn llety digartrefedd dros dro dan Ddeddf Tai Cymru 2014 yw 117 diwrnod.
- Nifer y bobl a aeth at y gwasanaeth digartrefedd am gymorth - 1372 (yn 2022).
- Mae aelwydydd un rhiant ac aelwydydd un oedolyn wedi'u gorgynrychioli mewn achosion digartrefedd. Llywodraeth Cymru 2022 (Adroddiad Lles Blynyddol)
- Mae merched yn fwy tebygol o fod dan fygythiad o ddigartrefedd ac mae dynion yn fwy tebygol o fod yn ddigartref. StatsCymru 2022
- Mae pobl ifanc LHDT yn fwy tebygol o fynd yn ddigartref na'u cyfoedion nad ydynt yn LHDT, gan gyfrif am hyd at 24% o'r boblogaeth o bobl ifanc ddigartref. Ffynhonnell: Cynllun Gweithredu LHDTC+ Cymru
- Mae prinder o leiniau ar gael i Deithwyr ac mae llawer o'r lleiniau awdurdodedig mewn lleoliadau anaddas, unai'n rhy bell o gyfleusterau lleol neu'n rhy agos at eiddo diwydiannol. Price (Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru), 2021
- Mae 9 safle awdurdodedig i Deithwyr yn y sir ac roedd 9 achos o wersylloedd diawdurdod yn 2022/23.
- Yn 2011 yng Nghymru, roedd 28.7% o Sipsiwn neu Deithwyr Gwyddelig a 27% o bobl Fangladeshaidd a oedd yn byw mewn tai gorlawn (hynny yw, roedd llai o ystafelloedd gwely nag yr oedd eu hangen arnynt er mwyn osgoi rhannu nas dymunir), a hefyd 19.4% o bobl Ddu a 18.5% o bobl Arabaidd, o gymharu â 4.9% o bobl Wyn Brydeinig - Ffynhonnell: Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol LlC.

**Caiff llwyddiant ei fesur drwy:**

| Mesurau / Dangosyddion Perfformiad | Gwaelodlin |
|---|---|
| Nifer yr addasiadau bach sydd wedi cael eu cwblhau i bobl anabl | 531<br>(Uwch na'r arfer oherwydd Covid-19 20/21 - 349) |
| Nifer y dyddiau a gymerir ar gyfartaledd i gwblhau addasiad bach i berson anabl | Mesur Newydd |
| Nifer yr addasiadau canolig dewisol sydd wedi cael eu cwblhau i bobl anabl | 32 |
| Nifer yr addasiadau canolig gorfodol neu ddewisol sydd wedi cael eu cwblhau i bobl anabl | 78 |
| Nifer y dyddiau a gymerir ar gyfartaledd i gwblhau addasiad canolig gorfodol i bobl anabl | 89 |
| Nifer yr addasiadau mawr gorfodol sydd wedi cael eu cwblhau i bobl anabl | 11 |
| Nifer y dyddiau a gymerir ar gyfartaledd i gwblhau addasiad bach i berson anabl | Mesur Newydd |
| Nifer yr addasiadau canolig dewisol sydd wedi cael eu cwblhau i bobl anabl | 32 |
| Nifer yr addasiadau canolig gorfodol neu ddewisol sydd wedi cael eu cwblhau i bobl anabl | 78 |
| Nifer yr aelwydydd wedi'u hailgartrefu gyda gofynion sylweddol o ran addasiadau | 10 |
| Nifer y dyddiau a gymerir ar gyfartaledd i gwblhau addasiad mawr gorfodol i bobl anabl | 469 |
| Cyfanswm yr addasiadau sydd wedi cael eu cwblhau i bobl anabl | 652 |
| Canran o ganlyniadau atal llwyddiannus ar gyfer digartrefedd o dan Ddeddf Tai Cymru 2014 | 63 |
| Canran o ganlyniadau lliniaru llwyddiannus ar gyfer digartrefedd o dan Ddeddf Tai Cymru 2014 | 57 |
| Nifer yr aelwydydd y darperir ar eu cyfer gan y Cyngor o dan ddyletswyddau digartref Deddf Tai Cymru 2014 | 101 |
| Hyd cyfartalog arhosiad (diwrnodau) ar gyfer yr aelwydydd hynny mewn llety digartrefedd dros dro dan Ddeddf Tai Cymru 2014 | 117 |
| Nifer yr atgyfeiriadau a dderbyniwyd drwy'r Porth Cymorth Tai | 1,328 |
| Nifer y bobl a aeth at y gwasanaeth digartrefedd am gymorth | 1,372 |
| Nifer a % y Tîm Digartrefedd sy'n mynychu hyfforddiant penodol ar ymwybyddiaeth o LHDTC+ | Mesur newydd |
| % y data cydraddoldeb a gedwir ar bobl sy'n datgan eu bod yn ddigartref | Mesur newydd |
| % y data cydraddoldeb a gedwir ar Ddeiliaid Contract (Tenantiaid y Cyngor) | Mesur newydd |

## Amcan 7: Lleihau effaith tlodi a chynnwys dyletswydd economaidd-gymdeithasol o fewn y sefydliad

**Mae hyn yn flaenoriaeth oherwydd:**

- Mae Llywodraeth Cymru yn adrodd bod:
  - Plant yn fwy tebygol o fod yn byw mewn tlodi nag oedolion
  - Roedd 28% o blant yn byw mewn tlodi yn 2020
  - Mae aelwydydd mewn tlodi tanwydd yn hŷn ar y cyfan. O'r holl aelwydydd mewn tlodi tanwydd, mae oddeutu:
    - 2 o bob 5 yn cael eu harwain gan rywun dros 65 oed
    - 1 o bob 4 yn cael eu harwain gan rywun dros 75 oed
- Yn ôl yr Arolwg Adnoddau Teulu, rhwng 2019 a 2020, roedd 5 miliwn o bobl yn y DU yn byw mewn tlodi bwyd. Yn 2020, roedd hyn yn cyfateb ag 8% o'r boblogaeth ond mae data gan The Food Foundation yn awgrymu bod lefelau ansicrwydd bwyd wedi codi i 9% o'r boblogaeth ym mis Ionawr 2021. Ffynhonnell: Tlodi Bwyd - Sustain
- Roedd dros chwech o bob deg person (62%) o oedran gwaith a atgyfeiriwyd at fanciau bwyd ar ddechrau 2020 yn anabl. Mae hyn yn cyfateb i dros dair gwaith y gyfradd yn y boblogaeth gyffredinol. Ffynhonnell: Ymddiriedolaeth Trussell
- Mae ethnigrwydd nad yw'n wyn yn gysylltiedig â thebygolrwydd uwch o dlodi incwm perthynol. Ffynhonnell: Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol Llywodraeth Cymru.
- Amcangyfrifon Tlodi Tanwydd Llywodraeth Cymru:
  - Amcangyfrifwyd bod 169,000 o aelwydydd diamddiffyn yng Nghymru yn byw mewn tlodi tanwydd, cyfwerth â 14% o aelwydydd diamddiffyn.
  - Amcangyfrifwyd bod 26,000 o aelwydydd diamddiffyn yn byw mewn tlodi tanwydd difrifol, cyfwerth â 2% o aelwydydd diamddiffyn.
  - Amcangyfrifwyd bod 141,000 o aelwydydd diamddiffyn mewn perygl o fyw mewn tlodi tanwydd difrifol, cyfwerth â 12% o aelwydydd diamddiffyn.

(Ffynhonnell: Amcangyfrifon Tlodi Tanwydd - Llywodraeth Cymru 2022)

- Ers 2011, oedolion dros 65 mlwydd oed sydd wedi cyfrif am y gyfran fwyaf o oedolion nad ydynt yn defnyddio'r rhyngrwyd, ac roedd dros hanner yr oedolion nad oedd yn defnyddio'r rhyngrwyd dros 75 mlwydd oed yn 2018.
- Dywedodd ganran is o bobl anabl eu bod yn ffafrio siopa wyneb yn wyneb (65% o'i gymharu â 73% o bobl nad ydynt yn anabl). Ffynhonnell: SYG, 'Exploring the UK's digital divide', 2019.
- Mae cyswllt cryf rhwng tlodi ac anfantais economaidd-gymdeithasol ac anghydraddoldebau a wynebir wrth gael mynediad at gartrefi boddhaol gan rai pobl o leiafrif ethnig. Ffynhonnell: Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol Llywodraeth Cymru.

**Caiff llwyddiant ei fesur drwy:**

| Mesurau / Dangosyddion Perfformiad | Gwaelodlin |
|---|---|
| Cyfanswm yr aelwydydd sy'n derbyn gwelliannau effeithlonrwydd ynni | 1,293 |
| Darparu cyngor a chyfeirio aelwydydd diamddiffyn at gymorth | **I'w gadarnhau** |
| Nifer yr unigolion sy'n mynd i gyflogaeth, addysg neu waith gwirfoddol | 153 |
| Nifer yr unigolion sy'n derbyn cefnogaeth | 367 |
| Nifer y cardiau sim sydd wedi cael eu rhoi i bobl mewn aelwydydd incwm isel | I'w gadarnhau |
| Cofnodi nifer y grantiau gwisg ysgol sy'n cael eu dyfarnu | **I'w gadarnhau** |
| Nifer y diwrnodau calendr a gymerir, ar gyfartaledd, i brosesu hawliadau newydd ar gyfer budd-dal tai a gostyngiad yn nhreth y Cyngor[1] | 17 |
| Nifer y diwrnodau calendr a gymerir, ar gyfartaledd, i brosesu newid mewn amgylchiadau ar gyfer budd-dal tai a gostyngiad yn nhreth y Cyngor[2] | 3 |
| Cyfanswm gwariant Taliad Disgresiwn at Gostau Tai (%) | 130 |
| Nifer y plant sydd wedi cofrestru ar gyfer gwersi nofio am ddim | Amherthnasol - Mesur Newydd |
| Nifer yr ardaloedd chwarae awyr agored â mynediad am ddim sydd ar gael i blant ar draws y sir | 195 |
| Nifer yr eitemau ar fenthyg (ffisegol a digidol) | 176,184 |
| Nifer y preswylwyr sydd wedi cofrestru ar gyfer y gwasanaeth "Prydau Symudol" | 190 |
| Nifer y preswylwyr a gefnogir gan y gwasanaeth prydau "O'r Ysbyty i'r Cartref" | Amherthnasol - Mesur Newydd |
| Nifer y plant sy'n mynychu sesiynau Ffitrwydd, Bwyd a Darllen yn ystod gwyliau ysgol | 5,400 |

[1]Caiff y targed ar gyfer nifer y diwrnodau calendr a gymerir, ar gyfartaledd, i brosesu hawliadau newydd ei osod gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (20 diwrnod).

[2]Caiff y targed ar gyfer nifer y diwrnodau calendr a gymerir, ar gyfartaledd, i brosesu newid mewn amgylchiadau ei osod gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (8 diwrnod).

# 3. Diwallu'r Dyletswyddau Penodol

## 3.1 Trefniadau ar gyfer nodi, coladu a chyhoeddi gwybodaeth

**Cyflogaeth**

Ar hyn o bryd rydym yn monitro proffil y gweithwyr yn ôl oedran, anabledd, ethnigrwydd, statws priodasol, crefydd, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol. Caiff adroddiadau manwl eu cyhoeddi yn flynyddol ar ein gwefan ac yn cynnwys proffiliau o:-

- y gweithlu
- lefelau tâl
- ymgeiswyr sy'n ymgeisio am swyddi
- ymgeiswyr a ddewiswyd ar gyfer cyfweliad
- penodiadau llwyddiannus
- ymadawyr
- achosion o fwlio ac aflonyddu
- camau disgyblu
- gweithwyr sydd wedi derbyn hyfforddiant

**Ysgolion**
Rydym hefyd yn casglu data am broffil disgyblion ysgol yn ôl oedran, ethnigrwydd, rhyw, iaith, mewn perthynas â:

- phresenoldeb
- gwaharddiadau
- hawl i brydau ysgol am ddim

Mae data ar gyrhaeddiad mewn cyfnodau allweddol penodol yn cael ei gyhoeddi yn yr adroddiad cydraddoldeb blynyddol. Mae'r data yn cael ei gasglu fel rhan o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD); a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru.

**Gwasanaethau**

Caiff proffil cwsmeriaid ei gasglu gan y Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer Oedolion, y Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer Plant, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid trwy system cwynion a sylwadau'r Cyngor. Mae'r wybodaeth hon yn cael ei chyhoeddi yn yr adroddiad cydraddoldeb blynyddol ar ein gwefan. Mae arolygon trigolion, arolygon boddhad ac ymarferion ymgynghori'n casglu gwybodaeth cydraddoldeb hefyd.

## 3.2 Trefniadau ar gyfer asesu effaith

Er mwyn cyflawni'r ddyletswydd benodol, mae'n ofynnol i bob awdurdod cyhoeddus nodi dulliau asesu effaith o ran polisïau ac arferion. Mae hyn er

mwyn sicrhau bod anghenion a phryderon yr holl grwpiau gwarchodedig yn cael eu hystyried.

Mae adnodd sgrinio ar gyfer asesiadau effaith integredig a thempled ar gyfer asesiad o effaith llawn wedi cael ei ddatblygu. Mae grŵp o fudd-ddeiliaid yn cynrychioli nodweddion gwarchodedig ymhlith gweithwyr ac aelodau'r cyhoedd yn adolygu Asesiadau Effaith Integredig a rhoi adborth i'r awduron. Mae Asesiadau Effaith Integredig wedi cael eu hintegreiddio i mewn i'r system rheoli perfformiad er mwyn hwyluso monitro mwy effeithiol.

Rydym yn gweithio gyda Phrifysgol Manceinion, er mwyn treialu adnodd newydd. Bydd gwerthusiad yn cael ei gynnal gydag aelodau etholedig, uwch reolwyr ac awduron Asesiadau Effaith Integredig. Bydd y gwerthusiad yn edrych ar ddefnyddioldeb yr adnodd a sut mae canlyniadau'r asesiadau yn llywio penderfyniadau.

## 3.3 Trefniadau ar gyfer hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth a nodi anghenion hyfforddi gweithwyr mewn perthynas â dyletswyddau sector cyhoeddus

Mae'r adran hon yn nodi trefniadau'r Cyngor ar gyfer sicrhau bod gan weithwyr yr wybodaeth, sgiliau a'r agweddau i gyflawni'r ddyletswydd gyffredinol a phenodol. Rydym yn cydnabod y bydd rhywfaint o godi ymwybyddiaeth/ hyfforddiant yn generig a bod angen i bob gweithiwr fod yn ymwybodol, a bydd hyfforddiant arall yn ymwneud yn fwy penodol â rolau swyddi unigol gan gefnogi gweithredu'r CCS.

Mae gweithgareddau penodol i gefnogi'r trefniadau hyn yn cynnwys: -

- Gweithdai pwrpasol ar Gydraddoldeb.
- Hyfforddiant i gefnogi mentrau megis Wythnos Ymwybyddiaeth o'r Byddar, Mis Hanes Sipsiwn a Theithwyr, Mis Hanes Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol a hyrwyddo ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o faterion cydraddoldeb penodol.
- Mae adnoddau ar gael ar fewnrwyd y Cyngor gan gynnwys canllawiau ar gyfer gweithio gyda phobl o'r grwpiau gwarchodedig.
- Modiwlau e-ddysgu ar gael ar Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Chydraddoldeb yn y gweithle. Mae'n rhaid iddynt gael eu cwblhau gan aelodau newydd o staff.
- Mae hyfforddiant ar Droseddau Casineb, Caethwasiaeth Fodern, Llinellau Sirol ac Atal hefyd ar gael.
- Mae hyfforddiant ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb, Caethwasiaeth Fodern a LHDTC+ hefyd ar gael ar ffurf modiwlau e-ddysgu.

.

## 3.4 Sut byddwn yn ymgorffori cydraddoldeb mewn Caffael

Wrth gaffael gwaith, nwyddau neu wasanaethau gan sefydliadau eraill, mae'n rhaid i gorff cyhoeddus yng Nghymru: -

- roi ystyriaeth ddyledus ynghylch a fyddai’n briodol i’r meini prawf dyfarnu ar gyfer y contract gynnwys ystyriaethau i helpu cyflawni’r ddyletswydd gyffredinol.
- rhoi ystyriaeth ddyledus ynghylch a fyddai’n briodol i bennu amodau yn ymwneud â pherfformiad y contract i helpu i gyflawni tri nod y ddyletswydd gyffredinol.

Mewn rhai contractau bydd cydraddoldeb yn ofyniad craidd a bydd hyn yn cael ei nodi yn fanwl o fewn y contract. Mae'r Polisi Caffael Cyngor Sir y Fflint yn datgan ei ymrwymiad i: -

- Ddefnyddwyr pob gwasanaeth
- Amcanion craidd a pholisi’r Cyngor
- Cydymffurfio â nodau ac amcanion y gwasanaeth
- Gwelliant parhaus
- Ansawdd a chydraddoldeb
- Effeithlonrwydd gweithredol

Mae ein Rheolau Gweithdrefn Contractau yn cynnwys yr holl nodweddion gwarchodedig yn yr holiadur cyn cymhwyso (HCC) ar gyfer tendr. Mae canllawiau ar gael i weithwyr ar gynnwys ystyriaethau cydraddoldeb mewn contractau penodol.

## 4 Monitro ac Adolygu

4.1 Bydd camau gweithredu a mesurau yn cael eu hymgorffori yn system rheoli perfformiad y Cyngor a bydd cynnydd yn cael ei adrodd i'r Cabinet yn flynyddol a phan fo angen. Bydd adroddiad yn disgrifio cynnydd at gyflawni'r amcanion cydraddoldeb yn cael ei gyhoeddi bob blwyddyn; bydd gwybodaeth berthnasol am gydraddoldeb yn cael ei chyhoeddi yn yr adroddiad hwn. Caiff cynnydd ei fonitro trwy’r Bwrdd Cydraddoldeb Corfforaethol, Tîm y Prif Swyddog, y Cabinet a Phwyllgorau Trosolwg a Chraffu perthnasol.

Bydd yr amcanion yn cael eu hadolygu’n flynyddol a’u diwygio os oes angen neu os yw monitro’n dangos bod meysydd newydd o anghydraddoldeb sydd angen sylw ar frys. Bydd y cynllun gweithredu yn cael ei ddiweddaru’n flynyddol. Os yw'r amcanion yn cael eu hadolygu, bydd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn cael ei ailgyhoeddi, fel arall bydd yn cael ei ailgyhoeddi yn 2028.

## 5. Cyhoeddi

